Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**

# Yr Ugeinfed adroddiad i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9

Ebrill 2025

senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddSafonau**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddSafonau@senedd.cymru**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**

# Yr Ugeinfed adroddiad i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9

Ebrill 2025

senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddSafonau**

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Hannah Blythyn AS**
Llafur Cymru



**Mick Antoniw AS**
Llafur Cymru



**Peredur Owen Griffiths AS**
Plaid Cymru



**Samuel Kurtz AS**
Ceidwadwyr Cymreig

# Cynnwys

**Argymhellion** ........ **5**

**1. Cyflwyniad** ........ **6**

Penodi Comisiynydd Dros Dro ........ 6

**2. Ystyried y gŵyn** ........ **8**

**3. Y broses o drafod Penderfyniad y Pwyllgor** ........ **9**

Penderfyniad y Pwyllgor ........ 9

Argymhelliad y Pwyllgor ........ 10

**4. Gwersi a ddysgwyd o'r gŵyn hon** ........ **12**

**Atodiad A – Adroddiad gan y Comisiynydd Safonau Dros Dro** ........ **13**

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell i'r Senedd, yn unol â pharagraff 8.22(b) o'r Weithdrefn, fod achos o dorri'r Cod wedi'i ganfod ond nad oes angen cymryd unrhyw gamau pellach. ........ Tudalen 11

# 1. Cyflwyniad

**1.** Nodir cylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ("y Pwyllgor") yn Rheol Sefydlog 22.[1] Yn unol â'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 22.2, rhaid i'r Pwyllgor:

> *"mewn perthynas ag unrhyw gŵyn a gyfeirir ato gan y Comisiynydd Safonau…ymchwilio i'r gŵyn, cyflwyno adroddiad arni ac, os yw'n briodol, argymell camau mewn perthynas â hi."*[2]

**2.** Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer y Senedd yn unol â Rheol Sefydlog 22.9 a pharagraff 8.23 o'r Weithdrefn ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd[3] ("y Weithdrefn") ac mae'n ymwneud â chŵyn yn erbyn Siân Gwenllian AS.

**3.** Mae adroddiad y Comisiynydd Safonau Dros Dro ("y Comisiynydd Dros Dro") ar ei hymchwiliad i'r gŵyn wedi'i atodi yn Atodiad A. Mae'n nodi manylion am y gŵyn a chasgliadau ymchwiliad ffurfiol y Comisiynydd Dros Dro.

**4.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi manylion am y gŵyn a thrafodaethau'r Pwyllgor wrth ddod i benderfyniad.

**5.** Datganodd Peredur Owen Griffiths fuddiant perthnasol wrth ystyried yr adroddiad hwn gan ei fod yn adnabod yr achwynydd.

**6.** Gofynnodd y Pwyllgor am ganiatâd gan y Comisiynydd i atgynhyrchu darnau o'r wybodaeth gyfrinachol a oedd yn destun y gŵyn hon.

**7.** Darparwyd copi o'r adroddiad hwn i'r Aelod dan sylw ac i'r Achwynydd.

### Penodi Comisiynydd Dros Dro

**8.** Mae'r gŵyn hon yn ymwneud â rhannu darnau o lythyr cyfrinachol a anfonwyd gan y Comisiynydd Safonau (y Comisiynydd). Ar ôl i'r gŵyn ddod i law, rhoddodd y Comisiynydd wybod i'r Aelod a'r Achwynydd, gan ei fod ef ei hun yn rhan o'r digwyddiadau a arweiniodd at y gŵyn, y byddai'n esgusodi ei hun o'r ymchwiliad os nad oedd un ohonynt yn fodlon y dylai ddelio â'r gŵyn bresennol.

[1] Rheolau Sefydlog
[2] Rheol Sefydlog 22.2(i)
[3] Gweithdrefn y Senedd ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd

**9.** Ar ôl cael ymateb gan yr Achwynydd, esgusododd y Comisiynydd ei hun a hysbysodd y Senedd y dylid penodi Comisiynydd Safonau Dros Dro.

**10.** Ar 21 Tachwedd 2024, cytunodd y Senedd i benodi Melissa McCullough (Comisiynydd Safonau Cynulliad Gogledd Iwerddon, a Chomisiynydd Safonau'r Ynys Gyfan)[4] fel y Comisiynydd Dros Dro i ddelio â'r gŵyn benodol hon.

[4] Cwrdd â'r Comisiynydd – Comisiynydd Safonau Cynulliad Gogledd Iwerddon

# 2. Ystyried y gŵyn

**11.** Ystyriodd y Comisiynydd Dros Dro gŵyn mewn perthynas ag erthygl ar Nation Cymru y dywedodd yr Achwynydd y gallai Siân Gwenllian AS fod wedi rhannu gwybodaeth, a oedd wedi'i nodi'n gyfrinachol, gyda'i phlaid, at ddibenion budd personol. Honnodd, wrth rannu'r wybodaeth hon gyda'i phlaid, a "chydsynio" i'w rhannu'n gyhoeddus, y gallai Siân Gwenllian AS fod wedi torri rheolau 15 a 17 o'r Cod Ymddygiad i'r Aelodau.

**12.** Yn ei hasesiad o'r gŵyn, ystyriodd y Comisiynydd Dros Dro y rheol a ganlyn o'r Cod Ymddygiad fel yr un mwyaf perthnasol:

- Rheol 15: Ni chaiff Aelodau, mewn perthynas â datgelu gwybodaeth:

  i. sy'n gyfrinachol neu wedi'i farcio i'w ddiogelu fel arall, ei datgelu ac eithrio pan fo awdurdod i wneud hynny gan y person neu'r awdurdod sy'n rheoli'r wybodaeth neu pan fo angen eu caniatâd i'w datgelu yn ôl y gyfraith;

  ii. defnyddio'r wybodaeth a dderbynnir yn gyfrinachol heblaw yn rhinwedd eu swydd fel Aelod o'r Senedd, ac ni chânt ddefnyddio, neu geisio defnyddio, gwybodaeth o'r fath at ddibenion maleisus, dibenion mantais ariannol neu unrhyw fantais bersonol arall; ac

  iii. atal unrhyw berson rhag cael mynediad at wybodaeth fel y caniateir gan y gyfraith.

**13.** Nododd y Comisiynydd Dros Dro yn ei hadroddiad nad oedd o'r farn bod rheol 17 yn berthnasol, gan nad oedd tystiolaeth nad oedd yr Aelod yn cydweithredu â'r Comisiynydd Safonau.[5]

**14.** Cyfarfu'r Pwyllgor ar 25 Mawrth ac 1 Ebrill 2025 i ystyried adroddiad y Comisiynydd ac i ddod i'w gasgliad mewn perthynas â'r gŵyn hon.

[5] Rheol 17: Rhaid i Aelodau gydweithredu bob amser â Chomisiynydd Safonau'r Senedd wrth gynnal unrhyw ymchwiliad ac unrhyw ystyriaeth ddilynol o'r gŵyn gan Bwyllgor Safonau Ymddygiad y Senedd.

# 3. Y broses o drafod Penderfyniad y Pwyllgor

**15.** Bu'r Pwyllgor yn trafod p'un a dorrodd yr Aelod Reol Sefydlog 22.2(i).[6]

**16.** Wrth drafod a fu achos o dorri'r Cod, adolygodd y Pwyllgor ganfyddiadau'r Comisiynydd Dros Dro fel y'u nodir yn ei hadroddiad.

**17.** Ni fanteisiodd yr Aelod ar y cyfle i wneud sylwadau ysgrifenedig neu lafar i'r Pwyllgor.

## Penderfyniad y Pwyllgor

**18.** Nododd y Pwyllgor nad oedd yr Aelod yn gwrthwynebu'r ffaith ei bod wedi datgelu gwybodaeth gyfrinachol. Cyfaddefodd iddi ddatgelu tair brawddeg o lythyr cyfrinachol y Comisiynydd a gafodd ar 13 Mawrth 2024 a oedd yn esbonio rhesymau'r Comisiynydd dros ystyried bod cwynion eraill a wnaed gan yr Achwynydd yn ei herbyn yn annerbyniadwy.

**19.** Nododd y Pwyllgor farn y Comisiynydd Dros Dro fod y darnau o'r ohebiaeth a ddatgelwyd gan yr Aelod yn nodi ei bod yn ceisio amddiffyn ei hun rhag yr honiadau y gallai Nation Cymru eu cyhoeddi.

**20.** Mae'r Pwyllgor yn derbyn canfyddiad y Comisiynydd Dros Dro, ar sail y dystiolaeth, nad oedd yr Aelod wedi datgelu llythyr canlyniad cyfrinachol y Comisiynydd i Grŵp Plaid Cymru, y newyddiadurwr, nac unrhyw un arall. Fel y nodwyd uchod, cyfaddefodd yr Aelod ei bod wedi datgelu darnau o lythyr y Comisiynydd yr oedd yn deall eu bod yn gyfrinachol.

**21.** Nododd y Pwyllgor fod y Comisiynydd wedi mynd i'r afael â'r mater o ryddhau'r darnau o'r llythyr ar adeg ei gyhoeddi. Mae'r erthygl bellach yn cynnwys nodyn golygydd esboniadol yn egluro bod y wybodaeth wedi'i rhannu heb ganiatâd, ac mae'r Comisiynydd wedi derbyn ymddiheuriad gan Blaid Cymru.

**22.** Nododd y Pwyllgor hefyd fod y Comisiynydd Dros Dro wedi dod i'r casgliad nad oedd yr Aelod yn cymeradwyo nac yn ceisio cyfleu'r neges fod ganddi ganiatâd i rannu hyn i Dîm y Wasg Plaid Cymru.

[6] Rheol Sefydlog 22.2(i)

**23.** Daeth y Comisiynydd Dros Dro i'r casgliad a ganlyn:

> *"Drwy ddatgelu'r tair brawddeg o lythyr y Comisiynydd, fy marn i yw bod Ms Gwenllian wedi torri Rheol 15(i) o'r Cod Ymddygiad. Nid wyf o'r farn bod Ms Gwenllian wedi gwneud hyn am ei bod yn ceisio budd personol ond yn hytrach ei bod yn amddiffyn ei hun yn rhesymol, ac felly nid wyf yn credu ei bod wedi torri Rheol 15(ii) o'r Cod. Nid yw Rheol 15 (iii) yn berthnasol."*

**24.** Ar ôl ystyried canfyddiadau a chasgliadau'r Comisiynydd, a'r dystiolaeth ategol a ddarparwyd, cytunodd y Pwyllgor y bu achos o dorri Rheol 15 (i) o'r Cod Ymddygiad, yn unol â chanfyddiadau'r Comisiynydd.

Mae'r Pwyllgor yn canfod bod Siân Gwenllian AS wedi torri Rheol 15(i) o'r Cod Ymddygiad.

## Argymhelliad y Pwyllgor

**25.** Mae achos o dorri'r Cod Ymddygiad gan unrhyw Aelod o'r Senedd yn fater difrifol ym marn y Pwyllgor. Mae enw da Senedd Cymru, a ffydd a hyder y cyhoedd yn y sefydliad, yn dibynnu ar allu'r Aelodau i ddangos uniondeb ac arweinyddiaeth drwy eu gweithredoedd.

**26.** Mae'r Pwyllgor yn rhannu barn y Comisiynydd Dros Dro fod yr Aelod wedi rhannu'r wybodaeth hon er mwyn amddiffyn ei hun rhag adroddiadau anghywir a oedd yn cael eu gwneud am gwynion annerbyniadwy. Nid oes unrhyw dystiolaeth o fwriad i gael unrhyw fudd personol o rannu'r wybodaeth hon.

**27.** Fodd bynnag, wrth geisio gwrthbrofi honiadau a wnaed mewn perthynas â chwynion eraill, gwnaeth yr Aelod ei hun yn anfwriadol yn destun cwyn arall. Dylai Aelodau gofio pwysigrwydd parchu'r gofynion cyfrinachedd a nodir yn y Cod a bod yn ymwybodol bod rhaid gofyn am ganiatâd penodol i rannu gwybodaeth o'r fath.

**28.** Wrth ddod i'w benderfyniad, ystyriodd y Pwyllgor y ffaith bod yr Aelod yn derbyn ei bod wedi torri'r Cod, ac na roddodd awdurdod penodol i ryddhau'r wybodaeth i'w hargraffu. Fodd bynnag, wrth rannu darnau o'r llythyr, mae'r Aelod yn amlwg wedi torri'r rheolau cyfrinachedd yn y Cod Ymddygiad.

**29.** Mae'r Pwyllgor yn canfod bod yr Aelod yn torri'r Cod Ymddygiad ond, o ystyried yr amgylchiadau lliniarol a amlinellwyd uchod, mae'n ystyried nad oes angen unrhyw gamau pellach.

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell i'r Senedd, yn unol â pharagraff 8.22(b) o'r Weithdrefn, fod achos o dorri'r Cod wedi'i ganfod ond nad oes angen cymryd unrhyw gamau pellach.

# 4. Gwersi a ddysgwyd o'r gŵyn hon

**30.** Rhaid i Aelodau gydnabod a pharchu unrhyw nodau cyfrinachedd a ddangosir ar ddogfennau. Mae'r angen i gadw cyfrinachedd yn arbennig o bwysig mewn perthynas â'r broses gwyno. Mae'n sicrhau bod pobl yn gallu teimlo'n hyderus wrth gyflwyno cwyn a bod ganddynt ffydd yn uniondeb y broses.

**31.** Nododd y Pwyllgor gyda diddordeb sylwadau'r Comisiynydd Dros Dro ynghylch yr angen am gydbwysedd rhwng cyfrinachedd ac amddiffyniadau a roddir gan Erthygl 10 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol[7].

**32.** Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r Comisiynydd Dros Dro fod angen ystyried hyn ymhellach. Mae'r Pwyllgor yn credu y gallai adolygiad o'r darpariaethau cyfrinachedd yn y Cod – yn enwedig o ran sut y maent yn cyd-fynd â hawliau Erthygl 10 – baratoi'r ffordd ar gyfer sicrhau lefel uwch o dryloywder yn y broses safonau. Er enghraifft, pe bai'r rhesymau dros ystyried bod cwyn benodol yn annerbyniadwy yn cael eu cyhoeddi, byddai'r wybodaeth honno yn cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o sut y mae cwynion yn cael eu trin gan y Comisiynydd.

**33.** Bydd y Pwyllgor yn ystyried goblygiadau Rheol 15 mewn perthynas â'r broses gwyno fel rhan o'i waith parhaus. Er mwyn sicrhau tryloywder a thegwch, bydd y Pwyllgor yn ystyried yr ymagwedd at gyfrinachedd a'r cyfyngiadau ar yr hyn y gall Aelodau ei ddweud ar ôl i'r Comisiynydd ystyried cwynion yn eu herbyn.

[7] Mae Erthygl 10 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn amddiffyn hawl unigolyn i gynnal ei farn ei hun a'i fynegi'n rhydd.

# Atodiad A – Adroddiad gan y Comisiynydd Safonau Dros Dro

**ADRODDIAD**
**gan**
**GOMISIYNYDD SAFONAU DROS DRO Y SENEDD**
**ar ymchwiliad i gŵyn yn erbyn**
**Siân Gwenllian AS**

## 1. Cyflwyniad

1.1. Ar 5 Medi 2024, cyflwynodd [redacted] ("yr Achwynydd") gŵyn i Gomisiynydd Safonau'r Senedd ("y Comisiynydd") am ymddygiad Siân Gwenllian AS ("yr Aelod").[1] Ynddi, cwynodd fod Nation Cymru, ar 2 Awst 2024, wedi cyhoeddi erthygl a oedd yn awgrymu iddo ef fod Ms Gwenllian, o bosibl, wedi rhannu gwybodaeth â'i phlaid a oedd wedi'i nodi'n gyfrinachol, a hynny er budd personol. Honnodd fod Siân Gwenllian, wrth rannu'r wybodaeth hon â'i phlaid, a chan "gydsynio" iddi gael ei rhannu'n gyhoeddus, o bosibl wedi torri rheolau 15 a 17 o God Ymddygiad yr Aelodau.

1.2. Ar 16 Medi 2024, ysgrifennodd y Comisiynydd at yr Aelod a'r Achwynydd yn esbonio, oherwydd ei ymwneud â'r digwyddiadau a arweiniodd at y gŵyn, y byddai'n ymesgusodi ei hun os nad oedd y naill neu'r llall yn fodlon mai ef ddylai ddelio â'r gŵyn bresennol. Ar ôl i ymateb ddod i law gan [redacted], ymesgusododd y Comisiynydd ei hun.

1.3. Ar 21 Tachwedd 2024, cefais fy mhenodi'n Gomisiynydd Safonau Dros Dro y Senedd ("Comisiynydd Dros Dro") i ystyried y gŵyn hon.

1.4. Rwyf wedi ystyried y gŵyn yn unol â'r Weithdrefn ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd ("y Weithdrefn").

1.5. Fel sy'n ofynnol gan baragraff 7.4(e) o'r Weithdrefn honno, caiff y gŵyn a'r holl dystiolaeth yr oeddwn yn dibynnu arni wrth ffurfio fy marn eu cynnwys yn y cyfeiriadau yn y troednodiadau.

## 2. Cylch Gorchwyl

2.1. Roedd fy ymchwiliad yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar Reol 15 a Rheol 17 yn unol â'r honiad yng nghwyn [redacted].

2.2. Rheol 15:

Ni chaiff Aelodau, mewn perthynas â datgelu gwybodaeth:

i. sy'n gyfrinachol neu wedi'i farcio i'w ddiogelu fel arall, ei datgelu ac eithrio pan fo awdurdod i wneud hynny gan y person neu'r awdurdod sy'n rheoli'r wybodaeth neu pan fo angen eu caniatâd i'w datgelu yn ôl y gyfraith;
ii. defnyddio'r wybodaeth a dderbynnir yn gyfrinachol heblaw yn rhinwedd eu swydd fel Aelod o'r Senedd, ac ni chânt ddefnyddio, neu geisio defnyddio, gwybodaeth o'r fath at ddibenion maleisus, dibenion mantais ariannol neu unrhyw fantais bersonol arall; nac
iii. atal unrhyw berson rhag cael mynediad at wybodaeth fel y caniateir yn ôl y gyfraith.

2.3. Rheol 17:

Rhaid i Aelodau gydweithredu bob amser â Chomisiynydd Safonau'r Senedd wrth gynnal unrhyw ymchwiliad ac unrhyw ystyriaeth ddilynol o'r gŵyn gan Bwyllgor Safonau Ymddygiad y Senedd.

[1] Dogfen 1

## 3. Yr ymchwiliad

3.1. Cymraeg yw iaith gyntaf yr Aelod, felly cyfieithwyd yr holl ohebiaeth yn unol â hynny: o'r Saesneg i'r Gymraeg ar gyfer gohebiaeth a anfonwyd at yr Aelod, ac o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gyfer gohebiaeth a ddaeth i law gan yr Aelod. Mae'r dogfennau a gyfieithwyd yn Atodiad A ac yn cynnwys y fersiynau Cymraeg a Saesneg.

3.2. Ar ôl adolygu'r holl ddogfennaeth sy'n ymwneud â'r gŵyn, ar 5 Rhagfyr 2024, ysgrifennais at yr Aelod yn rhoi gwybod iddi fy mod yn cynnal ymchwiliad rhagarweiniol i asesu derbyniadwyedd y gŵyn. Rhoddais 14 diwrnod i'r Aelod wneud unrhyw sylwadau a ddymunai ynghylch y gŵyn.[2] Ar 10 Rhagfyr 2024, mewn ymateb i gais yr Aelod am ragor o fanylion, anfonais gopi o'r e-bost gwreiddiol gan y Comisiynydd ati.[3]

3.3. Ar 19 Rhagfyr 2024, rhoddais wybod i'r Aelod, ar ffurf llythyr, y barnwyd bod y gŵyn yn dderbyniadwy ac y byddwn yn bwrw ymlaen ag ymchwiliad llawn.[4]

3.4. Ar 3 Ionawr 2025, ysgrifennais at yr Achwynydd i gadarnhau fy mod wedi cynnal fy ymchwiliad cychwynnol, penderfynu ar dderbyniadwyedd y gŵyn, a rhoi gwybod iddo fod yr ymchwiliad wedi dechrau.[5]

3.5. Ar 5 Ionawr 2025, holodd yr Aelod a allai rannu'r wybodaeth â Phrif Chwip, Arweinydd a Chadeirydd Grŵp Plaid Cymru. Yn ogystal, gofynnodd am eglurder ynghylch darpariaethau penodol y Cod sy'n destun ymchwiliad a rhoddodd wybod i mi y byddai'n gofyn i unrhyw gyfweliad gael ei gynnal yn Gymraeg.[6] Mewn ymateb i'r Aelod, cynigiais gyfarfod â hi i egluro'r cwestiynau yr oedd hi wedi'u codi.

3.6. Ar 6 Ionawr 2025, cefais ohebiaeth gan yr Achwynydd yn rhoi caniatâd i mi ystyried cwynion blaenorol. Ymatebais ar yr un diwrnod, gan gadarnhau fy mod eisoes wedi archwilio llawer o’r dogfennau cefndir perthnasol a oedd yn rhoi cyd-destun i’r gŵyn, ac eglurais fy mod wedi cael fy mhenodi’n Gomisiynydd Dros Dro i ystyried y gŵyn hon yn unig.[7]

3.7. Ar 14 Ionawr 2025, cwrddais â'r Aelod dros Teams.[8] Gwnaethom drafod y broses ac eglurais fod adran 6.2 o’r weithdrefn gwyno yn nodi “[nad] yw’n ofynnol i’r Comisiynydd ymchwilio i ran o gŵyn sydd wedi’i derbyn gan yr Aelod y cwynir yn ei gylch.” Eglurais mai un ffordd ymlaen, os nad oedd yn gwrthwynebu’r honiad o ran Rheol 15, fyddai drwy holiadur y gallai ei ateb yn llawn ac atodi unrhyw ddeunydd ategol wrtho. Cytunodd yr Aelod i gael yr holiadur.

---

[2] Dogfen 2
[3] Dogfen 3
[4] Dogfen 4
[5] Dogfen 5
[6] Dogfen 7
[7] Dogfen 6
[8] Dogfen 8

3.8. Ar 5 Chwefror 2025, darparodd yr Aelod ei hymateb i'r holiadur[9] ynghyd â thystiolaeth ategol.[10]

## 4. Canfyddiadau Ffeithiol

4.1. Ar 21 Chwefror 2025, anfonais gopi o'm Canfyddiadau Ffeithiol at y ddau barti gan nodi bod angen iddynt gyflwyno cywiriadau ysgrifenedig neu sylwadau amdanynt erbyn 28 Chwefror. Dywedais yn glir, yn absenoldeb cywiriadau neu sylwadau, y byddai'r ffeithiau'n cael eu barnu i fod yn derfynol. O ran sylwedd y Canfyddiadau Ffeithiol, ni chodwyd unrhyw faterion perthnasol gan yr Aelod na'r Achwynydd. Fodd bynnag, ymatebodd yr Achwynydd drwy ddatgan fel a ganlyn: "the Standards Committee should be informed of the fact that Ms Gwenllian coordinated an email that erroneously stated that she was sharing the information with the Standards Commissioner's permission".[11] Mae'r mater yr oedd [redacted] yn cyfeirio ato yn cael sylw ym mharagraffau 5.3 a 5.4 o'r adroddiad hwn. Ymatebodd yr Aelod gan dynnu sylw at y ffaith bod cyfieithiad anghywir yn y fersiwn Gymraeg o'r Canfyddiadau Ffeithiol, a gywirwyd wedi hynny.

Canfyddais fod y ffeithiau a ganlyn wedi'u cadarnhau –

4.2. Ar 13 Mawrth 2024, ysgrifennodd y Comisiynydd at [redacted] yn ei hysbysu bod ei gŵyn yn erbyn Ms Gwenllian yn annerbyniadwy a rhoddodd ei reswm dros y penderfyniad hwnnw. Anfonodd y Comisiynydd gopi o'r llythyr hwn at Ms Gwenllian.

4.3. Ar 11 Ebrill 2024, ar ôl cael caniatâd gan y Comisiynydd[12], rhoddodd Ms Gwenllian wybod i uwch Aelodau Grŵp Plaid Cymru am ganfyddiadau'r Comisiynydd.

4.4. Ar 1 Awst 2024, cysylltodd Martin Shipton, newyddiadurwr Nation Cymru, â Thîm y Wasg Plaid Cymru, yn gofyn am ymateb erbyn diwedd y dydd ynghylch gohebiaeth e-bost a ddaeth i'w law gan [redacted]. Roedd yr ohebiaeth hon yn cynnwys honiadau bod Ms Gwenllian yn rhan o ymgais i gelu gwybodaeth yn yr honiadau yn erbyn Rhys ab Owen AS.

4.5. Ar yr un diwrnod, cydlynodd Ms Gwenllian ymateb gyda Thîm y Wasg Plaid Cymru a gofynnodd am gynnwys tair brawddeg ar wahân—dyfyniadau o lythyr cyfrinachol gan y Comisiynydd dyddiedig 13 Mawrth 2024—yn yr ymateb.

4.6. Ar 2 Awst 2024, cyhoeddodd Nation Cymru yr honiadau a wnaed gan [redacted], ynghyd ag ymateb Plaid Cymru a oedd yn cynnwys y brawddegau cyfrinachol o lythyr y Comisiynydd y gofynnodd Ms Gwenllian iddynt gael eu cynnwys.

## 5. Ystyriaeth

[9] Dogfen 9
[10] Dogfennau 10a, 10b
[11] Dogfen 12
[12] Dogfen 11

5.1. Nid wyf o'r farn bod y gŵyn hon yn ymwneud â Rheol 17. Nid oedd Ms Gwenllian wedi methu â chydweithredu â'r Comisiynydd.

5.2. Nid oedd Ms Gwenllian wedi herio'r ffaith iddi ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol. Cyfaddefodd iddi ddatgelu tair brawddeg o lythyr cyfrinachol y Comisiynydd a gafodd ar 13 Mawrth 2024 a oedd yn egluro rhesymau'r Comisiynydd dros ystyried bod cwynion [redacted] yn ei herbyn yn annerbyniadwy.

5.3. Ar ôl i'r ohebiaeth gan Mr Shipton ddod i law (a oedd yn cynnwys honiadau [redacted]), hysbysodd Tîm y Wasg Plaid Cymru Ms Gwenllian. Roedd ymateb Ms Gwenllian yn cynnwys dyfyniadau o lythyr y Comisiynydd ac ychwanegodd "Caiff Shipton fynd at y Comisiynydd i gael cadarnhad". Fodd bynnag, yn yr ateb olaf i Mr Shipton, dywedodd Tîm y Wasg Plaid Cymru, eu bod wedi cael caniatâd i rannu hyn. Pan gyhoeddwyd y darn, roedd yn cynnwys y canlynol: "Plaid Cymru, with permission, issued an extract from a letter from the Commissioner to [redacted]."

5.4. Fe wnaeth y Comisiynydd, nad oedd wedi rhoi caniatâd i rannu darnau o'r llythyr, gysylltu â Phrif Weithredwr Plaid Cymru a gadarnhaodd fod y staff o dan yr argraff fod yr Aelod mewn sefyllfa i roi caniatâd i'r Blaid rannu'r darn dan sylw. Eglurodd y Prif Weithredwr nad eu bwriad oedd awgrymu eu bod wedi ceisio caniatâd yn uniongyrchol gan y Comisiynydd neu fod y Comisiynydd wedi rhoi ei ganiatâd, ond cydnabu y gallai darllenydd ei ddehongli felly. Yn sgil hyn, cafodd y datganiad ei ddileu o'r erthygl, ac mae nodyn golygyddol bellach wedi'i gynnwys o dan yr erthygl, gan nodi nad oedd y Comisiynydd wedi rhoi caniatâd i Plaid Cymru i'r darn gael ei gyhoeddi. Mae'r Comisiynydd wedi mynd i'r afael â'r mater hwn ac wedi derbyn ymddiheuriad gan Plaid Cymru. Yn ogystal, does dim tystiolaeth bod Ms Gwenllian wedi cymeradwyo'r neges neu ei bod wedi ceisio cyfleu'r neges eu bod wedi cael caniatâd i rannu hyn i Dîm y Wasg Plaid Cymru.

5.5. Y wybodaeth a ddarparwyd gan [redacted] i Mr Shipton, a anfonodd Mr Shipton at Plaid Cymru am ymateb, a arweiniodd at ddatgeliad Ms Gwenllian. Cafodd y datganiadau a ganlyn a wnaed gan y Comisiynydd eu datgelu gan Ms Gwenllian ac maent yn nodi, yn fy marn i, ei bod yn ceisio amddiffyn ei hun rhag yr honiadau yr oedd hi wedi ofni y byddai Nation Cymru yn eu cyhoeddi:

> *I found no evidence of any cover up during my investigation, I was satisfied that the Member dealt with the matter in accordance with the then far from satisfactory Plaid Cymru processes.*
>
> *I am unclear why you assert that it is clear from my report that the Member failed to challenge Mr ab Owen's behaviour. You have not seen my report. From my interviews of both persons, it is clear that the Member did challenge his conduct. You are also incorrect when you assert that she had already investigated and dismissed the internal complaint before I informed her of the complaint I was investigating.*
>
> *The Member provided me with a full explanation of her actions. The Member was dealing with a highly sensitive matter and was under no obligation to explain her actions to anyone else.*

5.6. Mae'r ffaith bod y Comisiynydd eisoes wedi archwilio honiadau tebyg gan [redacted] ym mis Mawrth 2024 a phenderfynu eu bod yn annerbyniadwy, ynghyd â'r pwysau a fu ar Ms Gwenllian i ymateb i ymchwiliad y newyddiadurwr erbyn diwedd y dydd, a'i honiad bod [redacted] wedi "cynnal ymgyrch ddi-ddiwedd (relentless) gan ledaenu honiadau ffug i'r wasg ac i'r cyhoedd" ers 2021, yn golygu nad yw'n syndod ei bod yn teimlo bod rhaid amddiffyn ei henw da, hyd eithaf ei gallu, yn erbyn honiadau yr oedd hi'n ystyried eu bod yn ddi-sail. Roedd Ms Gwenllian yn deall bod y Comisiynydd hefyd yn ystyried bod yr honiadau hyn yn ddi-sail yn seiliedig ar y rhesymeg a ddarparwyd yn ei lythyr ynghylch annerbyniadwyedd—nad oedd ganddi awdurdod i'w ddatgelu ac nad oedd wedi'i ddatgelu yn flaenorol.

5.7. Roedd Ms Gwenllian o'r farn y byddai cynnwys canfyddiadau'r Comisiynydd yn ychwanegu hygrededd at ei hymateb, a gobeithiai y byddai'n ddigon i atal y newyddiadurwr rhag cyhoeddi honiadau [redacted]. Rwy'n ystyried ei bod yn rhesymol iddi gredu y byddai dyfynnu geiriau'r Comisiynydd, sef "I found no evidence of any cover up during my investigation, I was satisfied that the Member dealt with the matter in accordance with the then far from satisfactory Plaid Cymru processes", yn creu digon o argraff i atal y newyddiadurwr rhag cyhoeddi honiadau [redacted]. Er na arweiniodd hyn at atal cyhoeddi'r erthygl, mae'n dangos cymhelliant Ms Gwenllian wrth gynnwys datganiadau'r Comisiynydd fel y gwnaeth hi.[13]

5.8. Dengys tystiolaeth fod Ms Gwenllian wedi ceisio caniatâd gan y Comisiynydd i rannu canlyniad ei ystyriaeth o gŵyn [redacted] gydag uwch Aelodau Plaid Cymru. Dywedodd y Comisiynydd wrthi ar 11 Ebrill 2024 y gallai rannu'r neges a ganlyn gyda hwy: "all complaints against you have been dismissed because they were not admissible".

5.9. Ar sail y dystiolaeth, rwy'n fodlon na wnaeth Ms Gwenllian ddatgelu llythyr canlyniad cyfrinachol y Comisiynydd â Grŵp Plaid Cymru, y newyddiadurwr, nac unrhyw un arall. Fe wnaeth Ms Gwenllian ddatgelu dyfyniadau o lythyr y Comisiynydd yr oedd hi'n deall eu bod yn gyfrinachol.

## 6. Sylwadau

6.1. Mae cyfrinachedd o fewn y broses gwyno yn hanfodol ac mae iddi ddiben cyfreithiol. Fodd bynnag, rhaid cydbwyso hyn mewn modd cymesur mewn perthynas ag Erthygl 10 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, sy'n diogelu'r hawl i ryddid mynegiant. Er y caniateir cyfyngiadau ar yr hawl hon pan fo angen, megis yn ystod ymchwiliad parhaus, rhaid iddynt fod yn gymesur.

6.2. Gellid dadlau 1) mai dim ond yn ystod yr ymchwiliad y dylai gofyniad cymesur am gyfrinachedd fod yn berthnasol ac nid y tu hwnt iddo; 2) y byddai unrhyw reol sy'n atal Aelodau rhag trafod y canlyniad wedyn yn anghymesur ac y gallai o bosibl fynd yn groes

[13] Erthygl 2 Nation Cymru Awst 2024

i'w hawliau Erthygl 10; ac efallai 3) y dylid cyhoeddi llythyrau canlyniad annerbyniadwy er budd tryloywder.

6.3. Mae'r achos hwn yn tynnu sylw at y ffaith bod Aelodau yn wynebu anfantais o ran rhyddid mynegiant o gymharu ag achwynwyr nad ydynt yn Aelodau, gan nad yw'r olaf yn atebol yn yr un modd am dorri rheolau cyfrinachedd. O ganlyniad, gall fod yn orfodol i Aelodau, yn ôl y Cod, aros yn dawel mewn ymateb i honiadau cyhoeddus gan achwynwyr, y gallai rhai ohonynt eisoes fod wedi'u hasesu a'u hystyried yn annerbyniadwy gan y Comisiynydd, fel yn yr achos hwn. Mae'r anghysondeb hwn hefyd yn bresennol mewn awdurdodaethau eraill lle rwy'n gwasanaethu fel Comisiynydd. Am resymau tegwch, credaf fod hyn yn haeddu gwaith craffu pellach.

## 7. Casgliad

7.1. Drwy ddatgelu'r tair brawddeg o lythyr y Comisiynydd, fy marn i yw bod Ms Gwenllian wedi torri Rheol 15(i) o'r Cod Ymddygiad. Nid wyf o'r farn bod Ms Gwenllian wedi gwneud hyn am ei bod yn ceisio budd personol ond yn hytrach ei bod yn amddiffyn ei hun yn rhesymol, ac felly nid wyf yn credu ei bod wedi torri Rheol 15(ii) o'r Cod. Nid yw Rheol 15 (iii) yn berthnasol.

## 8. Argymhellion

8.1. Gall ystyriaeth bellach o Erthygl 10 mewn perthynas â rheolau cyfrinachedd helpu i leihau'r anghysondeb sy'n bodoli ar hyn o bryd rhwng Aelodau ac achwynwyr nad ydynt yn Aelodau. Yn sgil yr anghysondeb hwn, credaf y dylid ystyried Erthygl 10 ymhellach o safbwynt moesegol a chyfreithiol.

Dr Melissa McCullough
Comisiynydd Safonau Dros Dro y Senedd
10 Mawrth 2025